

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
<b>CYFARFOD:</b>	Cyngor Sir
<b>DYDDIAD:</b>	8 Medi 2020
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	Ymestyn y terfyn amser o dan Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972
<b>ADRODDIAD GAN :</b>	Lynn Ball – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro <a href="mailto:lbxcs@ynysmon.gov.uk">lbxcs@ynysmon.gov.uk</a>
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Lynn Ball – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro <a href="mailto:lbxcs@ynysmon.gov.uk">lbxcs@ynysmon.gov.uk</a> 01248 752586
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	Cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Cyngor i ymestyn y terfyn amser, o fewn y gofynion deddfwriaethol a chyfansoddiadol

Cefndir deddfwriaethol / Cyfansoddiadol:

1. Yn unol ag [Adran 85 \(1\) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972](#), os yw aelod yn methu â mynychu cyfarfod neu bwyllgor perthnasol o'r Cyngor am gyfnod di-dor o 6 mis, bydd yr aelod yn peidio â bod yn aelod etholedig yn awtomatig ac mae hynny'n sbarduno isetholiad. Gellir osgoi hyn os yw'r Cyngor yn cymeradwyo'r absenoldeb cyn i'r cyfnod o 6 mis ddod i ben.
2. Mae'r ddarpariaeth statudol hefyd wedi'i chynnwys ym [mharagraff 4.1.23 o Gyfansoddiad y Cyngor](#).
3. Ni ellir goresgyn yr angymhwysiad trwy i aelod ailddechrau mynychu cyfarfodydd, na thrwy gymeradwyo'n ôl-weithredol.

Cefndir ffeithiol:

4. O ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws cyfredol, mae'r Cyngor yn blaenoriaethu darparu gwasanaethau allweddol i'r chyhoedd ac yn derbyn nad oes modd, o bosib, cynnal "busnes democrataidd fel arfer". Mae [Deddf Coronafeirws 2020](#) a'r [Rheoliadau Awdurdodau Lleol \(Coronafeirws\) \(Cyfarfodydd\) \(Cymru\) 2020](#) yn lleihau'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd, tra'n caniatáu i aelodau fynychu cyfarfodydd o bell pan fo angen cynnal cyfarfodydd. Yng nghyd-destun y cefndir hwn, mae'r Cyngor wedi adolygu ei amserlen Bwyllgorau arferol, gan nodi'r gofynion sylfaenol o ran yr isafswm o gyfarfodydd y bydd raid eu cynnal, a chan gydnabod y bydd mwy na'r isafswm hwn o gyfarfodydd yn cael eu cynnal (yn wir, mae hyn yn digwydd eisoes). Serch hynny, mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau ei fod yn darparu ei wasanaethau allweddol a datblygu gweithdrefnau yn unol â rhaglen "Profi, Olrhain, Diogelu" Llywodraeth Cymru. Bydd nifer y cyfarfodydd y gellir eu

cynnal yn dibynnu ar sut mae amgylchiadau'n datblygu, gan gynnwys capasiti staff ac aelodau. Hyd yn oed gyda'r "ymdrechion gorau" efallai na chynhelir cyfarfodydd mor aml a byddant yn fwy ysbeidiol nag arfer, felly bydd llai o gyfle i aelodau "fynychu cyfarfodydd perthnasol" (gan gynnwys presenoldeb rhithwir). Gallai hyn yn hawdd arwain at dorri'r "rheol chwe mis" yn anfwriadol.

5. Mae [Rheoliadau Awdurdodau Lleol \(Coronafeirws\) \(Cyfarfodydd\) \(Cymru\) 2020](#) hefyd yn cynnwys cyfeiriad at y "rheol chwe mis"; Mae Rheoliad 10 yn nodi, at ddibenion cyfrifo'r chwe mis, y dylid diystyru'r cyfnod rhwng y diwrnod y daeth y Rheoliadau i rym (22 Ebrill 2020) a dyddiad cyfarfod perthnasol y gallai'r aelod fod yn bresennol ynddo (gan gynnwys trwy bresenoldeb o bell). Yr hyn y mae hynny'n ei olygu yn y bôn yw bod y cloc yn stopio am y tro am y cyfnod rhwng 22 Ebrill a'r cyfarfod perthnasol cyntaf y gallai'r aelod ei fynychu. At y dibenion hyn, diffinnir cyfarfod ffurfiol o'r Cyngor, neu gyfarfod pwyllgor ffurfiol, fel cyfarfod y mae'r unigolyn wedi ei enw fel aelod ohono.
  - Pan fydd aelodau yn mynychu eu cyfarfod perthnasol cyntaf, bydd y cloc yn dechrau eto ac mae gan yr aelod gyfnod 6 mis 'newydd' o ddyddiad y cyfarfod hwnnw.
  - Fodd bynnag, os na fydd aelod yn mynychu'r cyfarfod hwnnw, mae eu cloc yn dal i aildechrau o pryd y stopiodd ar 21 Ebrill 2020 (cyn i'r Rheoliadau ddod i rym).
6. Mae [Rheoliadau Awdurdodau Lleol \(Coronafeirws\) \(Cyfarfodydd\) \(Cymru\) 2020](#) yn cynnwys darpariaeth i aelodau fynychu cyfarfodydd o bell; felly bydd aelodau'n gallu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd trwy gyfrwng telegynadledda sain / fideo ond, er gwaethaf hynny, parheir i gynnal cyfarfodydd yn llai aml, ac yn ysbeidiol.

#### Y cynnig:

7. Gan fod yr amgylchiadau a ddisgrifir uchod y tu hwnt i reolaeth aelodau, mae'n annheg y gall aelodau wynebu anhymhwysiad "damweiniol".
8. Rhaid i'r gymeradwyaeth o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gael ei rhoi gan y Cyngor cyn i'r cyfnod o 6 mis ddod i ben, gan y byddai'n berthnasol i bob aelod unigol ac ar hyn o bryd ni wyddys pryd y byddir yn dychwelyd i drefn arferol y Cyngor o ran cynnal ystod lawn o gyfarfodydd ar eu hamlder arferol. Felly gofynnir i'r Cyngor wneud y penderfyniad hwn nawr i leihau'r risg o unrhyw ganlyniad niweidiol i unrhyw aelod.
9. Gan y gofynnir i aelodau ystyried a phleidleisio mewn perthynas â mater y mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu yn ei gylch, rhoddwyd caniatâd arbennig i bob aelod gan y Pwyllgor Safonau ar 29 Gorffennaf 2020. Gellir gweld y cais a'r penderfyniad yma.
10. Mae Gweinidog Cymru wedi cadarnhau mewn gohebiaeth ag Arweinwyr Cynghorau Sir dyddiedig 3 Ebrill 2020 "*y byddai'r trefniadau cyfredol yn caniatáu i awdurdodau gymeradwyo materion sy'n ymwneud â phandemig Covid-19 fel rheswm derbyniol o dan adran 85 i atal cynghorwyr rhag cael eu hanghymhwyso os ydynt yn methu mynychu cyfarfodydd trwy gydol cyfnod di-dor o chwe mis*".

#### Opsiynau eraill:

11. Yn absenoldeb unrhyw ddeddfwriaeth newydd, yr unig opsiwn arall yw gwneud dim. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'n bosib y gallai aelodau wynebu cael eu hanghymhwyso oherwydd diffyg presenoldeb o dan y "rheol 6 mis". Pe bai hynny'n digwydd:

11.1 byddai'n arwain at isetholiad. Byddai goblygiadau o ran adnoddau pe bai hynny'n digwydd, sef goblygiadau ariannol ac o ran amser aelodau a swyddogion;

11.2 gan y byddai oedi cyn unrhyw isetholiad byddai'n cyfyngu ar gynrychiolaeth y cyhoedd ar y Cyngor Sir. Yn ogystal â'u rôl gorfforaethol, bydd aelodau'n parhau â'u cyfrifoldebau lleol ac mae ganddynt ran allweddol i'w chwarae wrth gefnogi eu hetholwyr a gweithredu fel cyswllt rhwng y Cyngor Sir a'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli.

12. Nid pwrpas adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 oedd cosbi aelodau o dan yr amgylchiadau hyn, (yn wir, ni ragwelwyd amgylchiadau o'r fath pan ddrafftiwyd y ddeddfwriaeth). Mae'n fecanwaith ar gyfer sicrhau bod aelodau'n mynychu ac yn cymryd rhan yn rheolaidd ym musnes y Cyngor mewn amgylchiadau arferol. Ni fyddai'n rhesymol cosbi aelodau am fethu â mynychu digon o gyfarfodydd / cyfarfodydd amserol pan fo cyfleoedd o'r fath wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd ac yn parhau i fod wedi eu cyfyngu o bosib.

13. Mae'n bragmataidd ac yn rhesymol, ar sail y ffeithiau a'r ddeddfwriaeth berthnasol, i aelodau gael amser ychwanegol o dan Adran 85.

## **ARGYMHELLION**

14. Bod y Cyngor yn cytuno, yn unol â llythyr Gweinidog Cymru dyddiedig 3 Ebrill 2020, i dderbyn y pandemig cyfredol, a'r amgylchiadau fel y'u disgrifir yn yr adroddiad hwn fel rhesymau boddhaol gan bob aelod dros beidio â chydymffurfio â'r ddarpariaeth yn Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

15. Yn amodol ar gytuno'r egwyddor ym mharagraff 14 uchod, lle bo angen, bod y Cyngor yn ymestyn y darpariaethau yn Adran 85 am chwe mis ychwanegol (fel bod gan bob aelod eniwr yn **Atodiad A** gyfanswm o ddeuddeng mis o'r dyddiad diwethaf yr oeddent yn bresennol mewn cyfarfod perthnasol i gydymffurfio â gofynion presenoldeb statudol).

16. Dylai unrhyw aelod sy'n ystyried eu bod mewn perygl o fethu â mynychu cyfarfod perthnasol o fewn y chwe mis gwreiddiol a'r chwe mis ychwanegol (a roddir o dan baragraff 15 uchod) gysylltu â'r Swyddog Monitro fel y gellir gwneud cais i'r Cyngor llawn am estyniad ychwanegol. Rhaid i'r Cyngor ystyried cais o'r fath cyn i'r chwe mis ychwanegol ddod i ben; felly anogir aelodau i fonitro eu presenoldeb i sicrhau cydymffurfiaeth.

**Atodiad A:**

1.	Y Cyngorydd Lewis Davies
2.	Y Cyngorydd Richard A Dew
3.	Y Cyngorydd John Griffith
4.	Y Cyngorydd Richard Griffiths
5.	Y Cyngorydd Glyn Haynes
6.	Y Cyngorydd Kenneth P Hughes
7.	Y Cyngorydd Trefor Lloyd Hughes MBE
8.	Y Cyngorydd Vaughan Hughes
9.	Y Cyngorydd Llinos Medi Huws
10.	Y Cyngorydd Aled Morris Jones
11.	Y Cyngorydd Carwyn Jones
12.	Y Cyngorydd Eric Wyn Jones
13.	Y Cyngorydd Richard Owain Jones
14.	Y Cyngorydd Gwilym O Jones
15.	Y Cyngorydd Robert Llewelyn Jones
16.	Y Cyngorydd R Meirion Jones
17.	Y Cyngorydd Alun Mummery
18.	Y Cyngorydd Bryan Owen
19.	Y Cyngorydd Robert G Parry OBE FRAgS
20.	Y Cyngorydd Dylan Rees
21.	Y Cyngorydd Alun Roberts
22.	Y Cyngorydd Dafydd Roberts
23.	Y Cyngorydd J Arwel Roberts
24.	Y Cyngorydd Margaret Murley Roberts
25.	Y Cyngorydd Nicola Roberts
26.	Y Cyngorydd Peter S Rogers
27.	Y Cyngorydd Dafydd Rhys Thomas
28.	Y Cyngorydd Ieuan Williams
29.	Y Cyngorydd Robin Wyn Williams